**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU

## Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000

**Y Cefndir**

Corff corfforaethol yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("y Cyngor") a sefydlwyd drwy gyfrwng Gorchymyn a wnaed o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("y Ddeddf").

Un o'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cyngor o dan y Ddeddf oedd sefydlu a chadw cofrestr o athrawon ac athrawesau.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi pwerau pellach i'r Cyngor i gadw, ar ffurf ysgrifenedig neu ar ffurf electronig, gofnodion ynghylch:

1) athrawon ac athrawesau y mae eu henwau wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr,

2) athrawon ac athrawesau penodol sy'n anghymwys i gael eu cofrestru,

3) athrawon ac athrawesau sydd â statws athro neu athrawes gymwysedig ond nad ydynt wedi'u cofrestru,

4) personau sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant athrawon ac athrawesau,

5) athrawon ac athrawesau penodol sydd heb gymwysterau,

6) athrawon ac athrawesau anghofrestredig sy'n paratoi at y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth,

7) personau cofrestredig y mae ganddynt rif cyfeirnod athro/athrawes ac sy'n gweithio fel athro neu athrawes neu wedi bod yn gweithio felly yn y gorffennol.

Anfonwyd y Gorchymyn allan at ddibenion ymgynghori cyn iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Cafodd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor gyfle cynnar i gyflwyno sylwadau ar y Rheoliadau ac

felly nid oes dim pwyntiau y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**
Unwaith eto, oherwydd y cyfle cynnar i gyflwyno sylwadau, nid oes dim sylwadau cyffredinol.

**DYLAN M HUGHES**
**Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

**16 Mehefin 2000**

Ein Cyf: LAD 01-01-092